# Stori Dylan yn cael swydd - Rhan tri

Mae'n ddiwrnod bendigedig, heulog ac mae Dylan wedi bod yn gorwedd yn y cae yn gwylio'r cymylau. Mae Dylan yn hoffi gwneud hyn pan fydd ganddo lawer i feddwl amdano. Heddiw mae'n meddwl am rywbeth pwysig iawn a ddysgodd ei ffrind Rhiannon iddo. Mae'n meddwl am yr injan dân a welodd yn ei siop. Mae'n meddwl am faint y mae ei heisiau a faint yw ei gwerth iddo.

Rwy'n credu ei bod hi yn werth £10. Mae Dylan yn dweud wrth ei hun yn uchel. Daw dafad ato yn y cae gan frefu fel pe bai'n cytuno. Mae Dylan yn edrych ar y ddafad ac yn dweud "Ond does gen i ddim £10. O ble gaf i £10? Sut ydych chi'n cael arian?" Nid yw'r ddafad yn helpu rhyw lawer, dim ond cnoi llond ceg o laswellt. Mae Dylan yn chwerthin ac yn dweud, "Rwy'n credu y dylwn i ofyn i Rhiannon," gan fwytho'r ddafad ar ei phen.

Mae Dylan yn mynd draw i siop Rhiannon. Mae hi'n gwenu ac yn chwifio wrth iddi sylwi arno.

"Bore da Dylan," meddai Rhiannon yn wên o glust i glust. "Sut ydych chi ar y diwrnod hyfryd, heulog hwn?"

Mae Dylan yn ochneidio, "Mae gen i gymaint o gwestiynau am arian o hyd."

"Mae hynny'n iawn," ateba Rhiannon. "Sut alla i helpu?"

"Rwyf i wedi meddwl yn galed iawn am yr injan dân. Rwy'n gwybod nad oes ei hangen arna i, ond rwyf i ei heisiau hi, ac rwy'n credu ei bod hi yn werth £10 i mi," meddai Dylan. "Ond nid wyf i'n gwybod o ble y gallaf i gael £10."

"Rwy'n credu ei bod hi'n bryd am ein gwers nesaf felly," gwena Rhiannon. "Heddiw fe allwn ni ddysgu am ennill arian."

"Ie, os gwelwch yn dda," meddai Dylan yn gyffrous. "Sut ydych chi'n ennill arian?"

Mae Rhiannon yn gwahodd Dylan i ddod y tu ôl i gownter y siop ac eistedd gyda hi.

"Gallwch chi ennill arian drwy wneud gwaith i helpu pobl, neu drwy werthu nwyddau," esbonia Rhiannon. "Rwyf i'n ennill arian trwy werthu nwyddau i bobl. Dyma fy siop. Mae'n llawn pethau sydd eu hangen a'u heisiau ar bobl. Maen nhw'n dod i'r siop ac yn rhoi arian i mi yn gyfnewid am y pethau hynny."

Mae Dylan yn oedi ac yn edrych o amgylch y siop. Mae'n meddwl tybed a oes ganddo unrhyw nwyddau y gallai eu gwerthu i bobl. (1)

Mae Dylan yn meddwl yn galed am yr holl bethau sydd ganddo a'r hyn y gallai eu gwerthu.

"Mae gen i lawer o deganau," awgryma Dylan, "ond nid wyf i eisiau gwerthu fy nheganau mewn gwirionedd. Rwy'n eu hoffi nhw'n fawr." Mae Dylan yn oedi eto ac yn meddwl ychydig mwy. "Mae gen i het a chot y gallwn i eu gwerthu," ychwanega Dylan. "Nid yw hetiau a chotiau yn hwyl. Nid wyf i'n meddwl y byddwn i'n gweld eu heisiau nhw."

Mae Rhiannon yn chwerthin ychydig, "Ond beth fyddech chi'n ei wisgo ar ddyddiau oer a phan fo'n bwrw eira i gadw'n gynnes? Beth fyddech chi'n ei wisgo ar ddyddiau gwlyb i gadw'n sych?"

Mae Dylan yn edrych yn siomedig braidd. "Rydych chi'n iawn," meddai wrth Rhiannon. "Mae angen i mi gadw'n gynnes ac yn sych." Mae Dylan yn aros i feddwl eto. Mae'n eistedd yn dawel am amser hir, gan feddwl am bethau eraill y gallai eu gwerthu.

Mae gan Rhiannon syniad.

"Fe allech chi wneud rhywbeth i'w werthu," awgryma. "Beth allech chi ei wneud?"

Mae Dylan yn cyffroi. "Rwy'n dda iawn am dynnu lluniau a pheintio," meddai. "Fe allwn i werthu fy lluniau."

"Mae hynny'n syniad gwych," cytuna Rhiannon. "Byddwn i wrth fy modd yn prynu un o'ch lluniau. Hoffwn i gael llun o fy nghi. Efallai gallech chi dynnu ei lun i mi? Byddwn i'n talu £2 i chi am hynny."

Mae Dylan yn dawnsio'n gyffrous. "Byddech chi'n fy nhalu i dynnu llun?" gofynna.

"Mae tynnu llun yn sgil sydd gennych chi. Gallwch chi ddefnyddio eich sgiliau i ennill arian. Efallai fod gennych chi lawer o sgiliau y gallwch chi eu defnyddio i ennill arian," eglura Rhiannon.

Mae Dylan wedi drysu eto. "Beth yw sgiliau?" gofynna.

"Sgiliau yw'r galluoedd neu ddoniau sydd gennych chi," esbonia Rhiannon." Rydych chi'n dda am dynnu lluniau. Mae hynny'n sgil. Efallai fod gennych chi sgiliau sy'n dod yn naturiol i chi a rhai rydych chi wedi eu dysgu. Pa sgiliau eraill sydd gennych chi?" gofynna Rhiannon. (2)

"Rwyf i wedi dysgu sut i jyglo," meddai Dylan yn falch. "Ydy hynny'n sgil?"

"Yn sicr," meddai Rhiannon yn llawn edmygedd. "Pa bethau eraill ydych chi'n dda yn eu gwneud?"

Mae llygaid Dylan yn crwydro o amgylch yr ystafell wrth iddo geisio meddwl am bethau mae'n dda yn eu gwneud. "Rwy'n gyfeillgar. Ydy hynny'n sgil?"

"Ydy, mae," cytuna Rhiannon. "Mae bod yn gyfeillgar yn sgil pwysig iawn. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ennill arian drwy gael swydd. Mae pob math o swyddi, ond mae angen rhywun sy'n gyfeillgar i wneud y rhan fwyaf ohonyn nhw."

"Allwn i gael swydd?" gofynna Dylan. "Beth yn union ydy swydd?" ychwanega.

"Mae rhai pobl yn dechrau busnesau, fel siop, ond mae gormod o waith i'w wneud ar eu pennau eu hunain. Maen nhw'n talu arian i rywun arall i'w helpu gyda'u busnes. Rwyf i'n talu dau berson i fy helpu gyda fy siop," esbonia. "Rwy'n eu talu nhw i helpu'r cwsmeriaid a chadw'r siop yn lân. Mae bod yn gyfeillgar wrth y bobl sy'n ymweld â fy siop yn bwysig iawn. Mae angen iddyn nhw fod yn gyfeillgar i gael y swydd honno."

"A gaf i swydd yn eich siop?" gofynna Dylan.

"Mae arna i ofn nad oes angen neb arall arna i ar hyn o bryd, ond fe allwn i eich helpu i ddod o hyd i swydd arall?" ymateba Rhiannon. "Gadewch i ni edrych yn y papur newydd. Mae pobl sy'n chwilio am gymorth gyda'u busnes yn rhoi hysbysebion yn y papur newydd."

Mae Rhiannon yn agor y papur newydd ac yn troi at dudalen gyda'r pennawd 'Hysbysebion Swyddi'. Wrth iddyn nhw edrych drwy'r hysbysebion, maen nhw'n gweld pob math o swyddi diddorol. (3)

**EISIAU HELP MEWN SIOP ESGIDIAU LEOL**

**ANGEN PLYMWR**

**SWYDD WAG YN TRIN GWALLT**

**ANGEN PERSON GWERTHU**

**HELPWR GWNEUD COELCERTH**

"Arhoswch!" gwaedda Dylan. "Helpwr Gwneud Coelcerth. Beth yw hynny?"

"Wn i ddim," ateba Rhiannon. Mae'r hysbyseb yn dweud...

**HELPWR GWNEUD COELCERTH**
**ANGEN HELP AR GYFER GŴYL YR HAF**
**YN CHWILIO AM RYWUN CYFEILLGAR SY'N GWEITHIO'N GALED**
**RHAID BOD YN DDA GYDA THÂN**

"Mae hynny'n swnio'n berffaith i fi," gwichia Dylan yn gyffrous, "Rwy'n ddraig. Rwy'n wych gyda thân."

Mae Rhiannon yn cytuno ac yn codi'r ffôn i ffonio'r rhif ar yr hysbyseb.

Ar ôl ychydig funudau ar y ffôn, mae hi'n troi at Dylan. "Mae angen rhywun arnyn nhw i danio'r goelcerth ar ddiwedd gŵyl yr haf a gwneud yn siŵr ei fod yn parhau i losgi nes bod pawb yn barod i fynd adref. Rwy'n credu y byddwch chi'n berffaith," meddai. "Ac maen nhw'n cytuno. Rydych chi wedi cael y swydd."

Mae Dylan yn gyffro i gyd nes iddo hedfan o gwmpas y nenfwd. Diolch i Rhiannon mae wedi dysgu popeth am arian, sut i'w wario'n ddoeth a sut i'w ennill. Dydd Sadwrn yma bydd ganddo ei swydd gyntaf un ac mae'n benderfynol o wneud ei orau glas.

Mae Dylan yn hedfan adref yn syth i ddechrau gweithio ar ei lun i Rhiannon, ond mae ei feddwl yn llawn cyffro. Mae'n eistedd wrth y bwrdd yn ei ystafell fyw ac yn tynnu'r llun harddaf o gi Rhiannon, Wendy. Mae'n penderfynu ei roi iddi yn rhodd am ei holl gymorth. Wedi'r cyfan, mae ganddo swydd i ennill arian nawr. (4)

Mae hi'n fore Sadwrn. Diwrnod mawr Dylan. Mae'r pentref wedi ei addurno'n hyfryd gyda blodau lliwgar a rhubanau. Mae'r aer yn oer, felly mae Dylan yn gwisgo ei got a'i sgarff. Mae'n gwenu wrtho'i hun, gan gofio Rhiannon yn dweud wrtho y byddai eu hangen arno. Mae'n cerdded yn falch i sgwâr y pentref. Mae aroglai melys candi-fflos a theisennau yn pasio heibio i Dylan ac mae'n eu harogleuo â gwên. Mae'n cerdded draw i swyddfa'r trefnydd ac yn cyflwyno ei hun.

"Dylan ydw i a fi yw'r Helpwr Gwneud Coelcerth," mae'n datgan yn falch.

Mae dyn yn eistedd wrth ddesg gyda mwstas mawr a gwên fwy.

"Wel Mr Jones ydw i, a gallaf i weld ein bod ni wedi gwneud dewis da iawn ar gyfer y swydd hon!" ateba.

Mae Dylan yn adeiladu coelcerth wych ac mae'r bobl yn ymgynnull o'i gwmpas. Wrth i'r haul fachlud mae Dylan yn cymryd anadl ddofn ac yn chwythu tân i waelod y goelcerth. Mae pawb yn gweiddi'n llawen ac yn curo dwylo wrth i'r fflamau dyfu a chynhesu pawb o gwmpas.

Mae Dylan yn sylwi ar Rhiannon yn gweiddi ac yn codi llaw gyda Mr Jones, ac mae'n cerdded draw i ddweud helo.

"Rwy'n falch iawn ohonoch chi, Dylan," meddai Rhiannon gan wenu. "Rydych chi wedi dysgu cymaint ac rydych chi wedi gwneud gwaith gwych heno."

"Rwy'n cytuno," meddai Mr Jones. "Dyma chi, Dylan. Rydych chi'n haeddu hwn." Mae Mr Jones yn rhoi papur £10 i Dylan. Mae Dylan mor falch fel bod ei lygaid yn llenwi â dagrau hapus.

"Gallaf i gael fy injan dân," meddai Dylan gan riddfan. "Diolch, Mr Jones a diolch Rhiannon. Diolch, diolch yn fawr."

Wrth i Dylan fynd adref, gan hedfan uwchben y pentref, mae'n sylweddoli'r peth pwysicaf y mae wedi ei ddysgu. Mae wedi dysgu gwerth cyfeillgarwch. Wrth iddo nesáu at ei gartref ar ben y bryn, mae'n meddwl draig mor ffodus ydyw i gael popeth sydd ei angen arno. (5)

## Cwestiynau i'r dosbarth:

1. Does gan Dylan ddim siop yn llawn nwyddau, ond oes ganddo unrhyw beth y gallai ei werthu? Pa fath o bethau allai fod ganddo?
2. Pa sgiliau sydd gennych chi?
3. Pa swyddi ydym ni'n gwybod amdanyn nhw yn barod? Allwch chi feddwl am rai?
4. Ydych chi'n meddwl y dylai Dylan roi'r llun yn anrheg os yw Rhiannon wedi cynnig talu £2?
5. Roedd Dylan yn Helpwr Gwneud Coelcerth gwych am ei fod yn ddraig. Pa swyddi ydych chi'n meddwl y byddech chi'n dda yn eu gwneud?